

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002

**Amser:** 2.00 to 5.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**CYNLLUN CORFFORAETHOL 2003 – 06: CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**Cyflawniadau Allweddol 2001/02

1. Er gwaethaf Clwy'r Traed a'r Genau, o'r 27 Targed Allweddol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn, fe gafodd 23 eu cyflawni gyda 6 o'r rhain yn well na'r disgwyl. Fe gyflawnwyd 3 targed yn rhannol, ac fe ohiriwyd 1, trwy gytundeb, tan 2002-03.
2. Dyma gyflawniadau allweddol y flwyddyn:

**Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol**

Hysbysu 49 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a oedd yn cynnal Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr oedd y Cynulliad wedi ei cynnig i Ewrop.

Cafwyd cytundebau fferm llawn ar 38,000ha o dir. Y cyfanswm cynyddol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf o gynllun Tir Gofal yw 76,000ha o dir (4.5% o dir amaethyddol Cymru).

Cwblhau mapio cynefinoedd bywyd gwyllt ar gyfer 66% o'n harfordir.

Sicrhau Cytundebau Rheoli ar gyfer SoDdGA mewn mwy na 15,000ha o dir.

Llunio mwy na 100 o Adroddiadau Rheoli Safle ar SoDdGA yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Llunio 85 o Gyfarwyddiadau Safleoedd (mewn cydweithrediad ag Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru) i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewropeaidd.

Gweithio ar dros 100 o Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau fel ein cyfraniad at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Prydain.

Cwblhau 20 o Archwiliadau ar ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, er mwyn sicrhau safonau rheoli uchel.

Dod â dros 194,000ha o'r môr, a ddynodwyd fel ACA, o dan gynlluniau a oedd yn rheoli'r amgylchedd yn sensitif, gan weithio'n agos gyda phartneriaid.

### **Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

Ehangu ein gwaith partneriaeth ar *LANDMAP* i 20 o Awdurdodau Lleol.

Llunio canllawiau ar gyfer AHNE er mwyn darparu a gweithredu cynlluniau rheoli.

Dosbarthu dros £200,000 o nawdd CCE mewn AHNE.

Sefydlu cronfa her y rhywogaethau i annog partneriaid i ddechrau 19 o gynlluniau gweithredu rhywogaethau eraill dan CGB Prydain.

Symbylu darparu/cyhoeddi 22 o Gynlluniau Gweithredu Rheoli Lleol.

### **Cefnogi Datblygiad Economaidd Cynaliadwy**

Cynghori mewn dros 4000 o eitemau gwaith achos, gan gynnwys cynigion datblygu a geisiai sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

Datblygu 2 o gynigion Amcan 1 rhanbarthol a chefnogi partneriaid gyda llawer mwy.

Rhoi dros £15 miliwn yn yr economi wledig trwy gyfrwng cytundebau gyda thirfeddianwyr a rhaglenni grantiau eraill.

## Hyrwyddo Dealltwriaeth a Mwynhad o'r Amgylchedd Naturiol

Noddi Awdurdodau Lleol i agor, rheoli a hyrwyddo dros 400 cilomedr o Lwybrau Cyhoeddus (LIC).

Cefnogi 13 o brosiectau a oedd yn hyrwyddo menter Cerdded Llwybr Iechyd mewn partneriaeth â Sefydliad Prydeinig y Galon.

Mewn partneriaeth ag eraill trefnu i agor Ffordd Glyndŵr fel y 3ydd Llwybr Cerdded Cenedlaethol yng Nghymru.

Cyhoeddi a dosbarthu canllawiau arferion gorau ar gyfer Mynediad Lleol.

Dechrau ymgynghori ynghylch tir Mynediad Agored ar 22% o dir Cymru yn unol â Deddf CGHT.

### Gweledigaeth CCGC ynghylch y Dyfodol

3. O fewn y deng mlynedd nesaf, yr ydym yn benderfynol o wella amgylchedd naturiol Cymru yn sylweddol, ac felly wella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yng Nghymru ac ansawdd y profiad y mae'r rhai sy'n ymweld â Chymru yn ei gael. Yr ydym eisiau:

- Cymru a chanddi nodweddion tirwedd mwy nodweddiadol sy'n cynnwys mwy o fioamrywiaeth
- i'r tir a'r môr gynnal mwy o fywyd gwylt a mwy o gynefinoedd
- datblygiad economaidd sy'n parchu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ei nodweddion hanesyddol a diwylliannol
- Cymru lle gall trigolion ac ymwelwyr ddefnyddio'r cefn gwlad a'r arfordiroedd yn haws, gan roi mwynhad iddynt a hybu eu lles

### Cyflawni'r Weledigaeth – y Prif Sialensau ar gyfer y Tair Blynedd Nesaf

4. Yn Atodiad 1 ceir crynodeb o'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2003-06. Dyma'r prif sialensau yr ydym yn eu hwynebu:

- Diogelu a gwella bywyd gwylt a thirwedd Cymru, sy'n werth tua £9 biliwn i bobl Cymru.
- Sicrhau bod ACA a SoDdGA yn cael eu rheoli'n iawn, gan ddiogelu, felly, gronfeydd Amcan 1

- Cynyddu arwynebedd tir ffermio dan reolaeth amgylcheddol trwy Tir Gofal.
- Gwella safon addysg amgylcheddol a sut y dehonglir yr amgylchedd, gan geisio cael pobl Cymru i gyd (mewn ardaloedd gwledig a threfol) i'n cefnogi wrth inni wynebu'r sialensau.
- Gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n berthnasol i Gymru.
- Erbyn 2005, rhoi'r holl fesurau ar gyfer mynediad newydd i gefn gwlad ar waith yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
- Rhoi ein Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy ar waith, gan gynnwys dod yn un o brif gyrff y Cynulliad o ran glasu erbyn 2005.
- Datblygu ymhellach botensial a gallu ein partneriaid trwy gyfrwng cefnogaeth dechnegol ac ariannol.

## 5. Gwella'r Ffordd yr ydym yn Cyflawni ein Gwasanaethau

Fel sefydliad, yr ydym yn credu'n gryf mewn gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd wrth wasanaethu pobl Cymru. Mae gennym dargedau heriol ar waith er mwyn arbed yr adnoddau yr ydym yn eu defnyddio (dŵr, ynni, teithio, papur), er mwyn lleihau gwastraff, ac mwyn gwneud ein gweithgareddau'n fwy 'gwyrdd' trwy ein Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy sydd wedi ei gyhoeddi. Yr ydym wedi datblygu Cynllun Effeithiolrwydd 5 mlynedd ac, fel rhan o'n menter liP, yr ydym wedi buddsoddi mwy o arian er mwyn hyfforddi ein staff i gynnig gwasanaethau gwell i'r cwsmeriaid. Hefyd mae gennym gynlluniau i wella ein gwasanaethau electronig a dwyieithog (fe fydd 35 yn fwy o staff yn rhugl yn y Gymraeg erbyn 2006). Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein staff yn cael cyfleoedd cyfartal, oriau gweithio hyblyg a lle gwaith iachus. Yr ydym yn un o'r sefydliadau peilot sy'n gweithredu menter Cydbwysedd mewn Gwaith a Bywyd y Cynulliad.

## Gweithio tuag at Gyflawni Amcanion ar y Cyd

6. Yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau yn bennaf trwy weithio gyda phartneriaid. Yr ydym yn rhoi dros £15 miliwn o grantiau a chytundebau i'n partneriaid. Dyma'r partneriaid allweddol:

- 22 o Awdurdodau Unedol, e.e. gweithredu darpariaethau Mynediad Agored CGHT, LANDMAP, CGBLI.
- 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol, e.e. datblygu cynlluniau grantiau amgylcheddol a ariennir gan Amcan 1
- 5 AHNE – cynlluniau rheoli a Chronfa Datblygu'r Amgylchedd
- 9,000 o berchnogion SoDdGA
- 1,000 o ddeiliaid cytundeb Tir Cymen a dros 750 o ddeiliaid cytundeb Tir Gofal
- Sefydliad LINK Cymru a'i sefydliadau yn y sector wirfoddol

- AAC a CG, e.e. adroddiadau ar Gyflwr yr Amgylchedd a mentrau addysgol-amgylcheddol ar y cyd
- CGGC a CLT, e.e. mentrau Balchder Bro/Arbenigrwydd Lleol
- SPyG a NOF, e.e. menter Cerdded Llwybr Iechyd
- Partneriaid yn rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

## CYNLLUN CORFFORAETHOL 2003-06: CRYNODEB GWEITHREDOL

Ar ran pobl Cymru, rydym yn gofalu am un o'n prif asedau economaidd – yr amgylchedd naturiol. Hwn hefyd yw conglaen iechyd ein cenedl.

Ein rôl yw gwarchod a hybu cefn gwlad ac arfordir Cymru a delio â'r hyn a allai eu niweidio. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu ein cynllun gwaith am y tair blynedd nesaf yn fanylach, gan esbonio'r hyn y medrwn ei gyflawni gyda'r cyllid sydd ar gael eisoes, a chyda chyllid ychwanegol.

Un o'n prif flaenoriaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw sefydlu cyfres o safleoedd a fydd o bwysigrwydd Ewropeaidd yn nhermau eu statws cadwraethol – un o'r gofynion y bydd yn rhaid i Gymru ei gyflawni er mwyn derbyn cyllid Ewropeaidd dan gynllun Amcan 1. Serch hynny, cychwyn y broses yn unig yw hysbysu safleoedd. Mae'r Gorchymyn Cynefinoedd yn nodi bod angen rheoli'r safleoedd hyn yn iawn, ac y bydd yn rhaid i Gymru sefydlu trefn a fydd yn adrodd ar statws cadwraethol. Yr ydym, felly, yn gobeithio cadw'r staff a weithiodd ar hysbysu'r safleoedd y tro cyntaf ar gyfer y gwaith yma, ac yn gobeithio cael nawdd ychwanegol ar gyfer llunio partneriaethau gyda thirfeddianwyr er mwyn eu rheoli ar ran y genedl.

Rydym hefyd wedi cynorthwyo'r Cynulliad i ddatblygu ac ehangu cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, ac yr ydym yn mireinio'r modd y mae'n cael ei weithredu. Trwy gyfrwng y cynllun hwn, rydym wedi llwyddo i ddod â rhan helaeth o dir amaeth Cymru o dan reolaeth sydd yn amgylcheddol sensitif, gan hefyd wneud cyfraniad sylweddol i economi cefn gwlad.

Mae'r Cynllun hwn yn ceisio'r adnoddau angenrheidiol er mwyn rheoli'r holl safleoedd sydd wedi eu dynodi, ac i barhau i ehangu Tir Gofal. Cawn wedyn ddechrau gweld y fantais o gael darnau helaeth o dir o dan reolaeth gydymdeimladol, datblygiad pellach yn y diwydiannau gwledig traddodiadol, a gwrth-droi dirywiad bioamrywiaeth – sydd yn arwydd o gynaliadwyedd. Gyda'r nawdd yr ydym yn gofyn amdano, byddwn yn gallu dod ag 8% yn fwy o arwynebedd tir Cymru dan reolaeth sensitif erbyn 2006. Mae ymchwil ar Dir Cymen, rhagflaenydd y cynllun, yn dangos y byddai buddsoddiad o'r fath yn helpu i sicrhau dichonoleb llawer o fusnesau gwledig sy'n bodoli eisoes, ac yn helpu i greu busnesau newydd.

Rydym hefyd yn dadlau'r achos o blaid cynnydd sylweddol yn ein hymdrechion i wella dealltwriaeth a gofal y cyhoedd parthed ein cyfoeth naturiol. Ni ellir mynd i'r afael yn llwyr â phroblemau cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd hyd nes y byddwn yn sylweddoli bod angen i ni newid ein hymddygiad, a dysgu byw mewn ffordd wahanol sydd â mwy o gydymdeimlad tuag at ein hamgylchedd naturiol. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, yr ydym yn cydnabod bod angen i ni gyrraedd cynulleidfa ehangach, yn enwedig y cymunedau trefol, a hefyd dylanwadu mwy ar y broses addysg.

Prif faes arall o bwys fydd cyflwyno darpariaethau mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, i gynyddu'r manteision tebygol a lleihau'r effeithiau negyddol ar y cymunedau sydd a wnelont â hyn. Fel y dangosodd effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau, mae mynediad i gefn gwlad yn hanfodol i'r economi gwledig. O gymharu ag economïau gweddill y Deyrnas Unedig, mae ein hamgylchedd ni yn bwysicach i economi Cymru, ac mae ganddo fwy o botensial economaidd. Un maes arbennig a allai ddod â manteision yn ei sgîl i Gymru wledig yn arbennig yw twristiaeth 'Werdd'. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r manteision o ran iechyd a ddaw wrth ymweld â'n cefn gwlad bendigedig.

Ychydig iawn o'n gwaith sy'n cael ei gyflawni gennym ni ar ein pennau ein hunain, ac mae ein gallu i weithio gyda phartneriaid yn destun cynnig arall, gan fod cynyddu ein partneriaid er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau yn allweddol yn ein hymdrech i gyflawni ein rhaglen waith yn llwyddiannus.

Bydd y tair blynedd nesaf yn rhoi'r cyfle inni gyfrannu at weithredu'r Cyfarwyddeb Fframwaith D•r, i adeiladu ar ganlyniadau'r adolygiad ar ddeddfwriaeth Pysgodfeydd Eog a D•r Croyw, ac i weithio er mwyn sicrhau y gwireddir yng Nghymru y potensial o gael dull mwy cyfannol o reoli d•r a llifogydd. Gallai'r gwaith hwn fod o fudd i nifer o gynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru. Bydd ein cyfraniad yn ehangu'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn ystod oes y Cynllun.

Ni yw'r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) cyntaf i gyflwyno Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy i'r Cynulliad, sydd yn ein hymrwymo i gyrchu at gyflawni nifer o dargedau anodd o ran ein gweithgareddau ni ein hunain yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Byddwn hefyd yn ceisio dylanwadu ar eraill gan gynorthwyo, gyda phartneriaid, i ddatblygiad mân brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, ynghyd â gweithio gyda datblygwyr i adnabod y safleoedd gorau ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy. Bydd y ddau beth yn cyfrannu at fodd mwy cynaliadwy o fyw.

Rydym wedi ehangu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyflawni'r gwaith ychwanegol a ddaeth, ar y cyfan, yn sgîl deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd (CE). Rydym angen atgyfnerthu ein sefyllfa yn awr, gan fuddsoddi yn ein hisadeiledd trwy ddiweddarau ein systemau TG, a chanoli ein Prif Swyddfa ar un safle. Pe na baem yn gallu gwneud hyn, fe fydd yn anodd inni ymdrin yn ddigonol â rhai materion a gyfyd yn ein harolwg pum-mlyneddol, gan

gynnwys materion yn ymwneud ag intigreiddio ein staff yn well, gwella cyfathrebu mewnol a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol gyda phartneriaid tra'n gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i gwsmeriaid yn unol â'r agenda Moderneiddio Llywodraeth.

Rydym hefyd yn dadlau'r achos y dylai ein cyllid gael ei bennu yn ôl graddfa chwyddiant. Yn y gorffennol, disgwylid i ni ymdopi â chwyddiant trwy wella ein heffeithlonrwydd, ond wedi blynyddoedd lawer o wneud hyn rydym yn awr yn gweld lleihad mewn termau real yn ein rhaglenni cyfredol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl staff yn cael cyfleoedd cyfartal, arferion gwaith hyblyg a manteision gweithle iachus. Fe adlewyrchir ein hymrwymiad tuag at ein staff yn ein rôl fel sefydliad peilot sy'n gweithredu menter Cydbwysedd rhwng Gwaith a Bywyd y Cynulliad.

## **Targedau Blaenoriaethol**

Erbyn 2006, sicrhau y bydd partneriaid yn rheoli 30,000ha yn fwy o gynefinoedd bywyd gwyllt.

Erbyn 2006, rhoi 150,000ha ychwanegol o dir ffermio dan Tir Gofal.

Erbyn 2005, gweithredu pob mesur ynghylch mynediad i gefn gwlad.

Erbyn 2006, datblygu 8 enghraifft o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a fydd yn ymwybodol o egwyddorion cynaliadwyedd.

Datblygu mentrau newydd i annog pobl sy'n byw mewn trefi i ymddiddori yn eu hamgylchedd.

Ei gwneud hi'n haws i'n partneriaid gyflawni ein hamcanion.

Datblygu prosiectau rheoli o fewn y dalgylch i warchod afonydd, llynnoedd a moroedd.

Rhoi modelau newydd ar brawf er mwyn datblygu intigreiddio gwledig.

Erbyn 2005, bod yn un o brif batrymau CCNC 'glasu'y Cynulliad.

Erbyn 2005, uno'r Pencadlys a moderneiddio'r isadeiledd

<b>Crynodeb o'r Cynigion</b>			
(yn nhrefn pwysigrwydd)	<b>2003/04</b>	<b>2004/05</b>	<b>2005/06</b>



	£	£	£
Llinell sylfaen *	34.153	34.153	34.153
Nawdd anghyfunol a chostau na ellir eu hosgoi	1.775	3.130	4.598
Ceisiadau:			
Rheoli a Monitro Safleoedd wedi eu Dynodi	2.527	3.994	5.939
Cyfleu ein Neges	2.303	2.473	2.625
Cael Mynediad i Gefn Gwlad a'i Fwynhau	0.327	0.720	1.076
Grantiau – Gwella Gallu ein Partneriaid	0.615	1.335	2.111
Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur	0.164	0.272	0.321
Morol / Dŵr Croyw	0.901	1.304	1.557
Gwarchod Tirwedd a Datblygiad Gwledig	0.260	1.255	1.294
Moderneiddio Llywodraeth / Glasu	0.324	0.335	0.348
Gwella Isadeiledd CCGC	3.629	2.192	1.145
<b><u>CYFANSWM Y CEISIADAU</u></b>	<b>11.050</b>	<b>13.880</b>	<b>16.416</b>
* heblaw costau rhedeg Tir Gofal o £2m			

<b>Tir Gofal</b>			
------------------	--	--	--

	<b>2003/04</b>	<b>2004/05</b>	<b>2005/06</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Llinell Sylfaen *	16.880	16.880	16.880
Ceisiadau	1.431	7.435	18.399
* gan gynnwys costau rhedeg Tir Gofal £2m			